



Llais Y Derwent

Gwanwyn 2009

Papur Bro i Ddysgwyr Cymraeg Canolbarth Lloegr

Rhif 7 Pris 25c

Newyddion

Mae hi'n Chwefror erbyn i'r rhifyn yma o Lais Y Derwent gael ei wneud ac mae sawl newid wedi digwydd yn y maes dysgu Cymraeg yn ardaloedd Derby a Nottingham yng nghanolbarth Lloegr ers y rhifyn diwethaf. Mae 'na newyddion drwg, sef y ffaith bod dau ddsbarth Cymraeg WEA Belper wedi dod i ben oherwydd diffyg niferoedd. Yn y bôn doedd dim digon o bobl i gyrraedd y nifer sy'n cael ei gosod gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr fel y lleiafrif angenrheidiol. Efallai bydd cyfle i aildechrau dosbarthiadau WEA yn y dyfodol, ond gawn ni weld. Yn y cyfamser mae Elin Merriman, sef cyn-diwtor y dosbarthiadau WEA, sy'n gweithio fel tiwtor hunangyflogedig, yn fodlon cynnig gwersi preifat am bris rhesymol. Mi fydd Ysgol Undydd Derby yn mynd ymlaen fel arfer yn yr hydref a hefyd mae 'na bosibilrwydd bydd Gweithdai Cymraeg Misol yn cael eu trefnu, ond bydd angen tipyn o waith i ddod a'r maen i'r wal. Mae Cyloch Dysgwyr Cymraeg Derby angen gwirfoddolwyr i ymuno a'r pwyllgor rheoli er mwyn cyrraedd y nod. Felly os oes rhywun sy eisiau ymuno a'r pwyllgor mi ddylen nhw gysylltu trwy ffonio 01332 332649.

Newyddion arall yw diflaniad hen safle we Cyloch Dysgwyr Cymraeg Derby ond mae 'na safle we newydd wedi cael ei greu. Mae hi'n bosib ymweld â'r safle newydd trwy fynd i safle we

<http://derbywelshlearnerscircle.blogspot.com/>

Mae 'na gryn dipyn o ddefnydd da ar gyfer dysgwyr ar y safle.

Newyddion da yw'r ffaith bod y nifer o bobl sy'n dod i'r grŵp yn rheolaidd yn cynyddu, ac os wyt ti eisiau dod, neu os rydych chi'n nabod pobl sy'n gallu helpu mi ddylech chi gysylltu'r grŵp trwy ffonio 01332 332649 neu e-bostio dysgwyr5@aol.com Mae'r grŵp Bore Coffi ar gyfer siaradwyr rhugl yn Nottingham yn parhau i gwrdd yn fisol. Os oes diddordeb gyda chi ffoniwch Gwynne ar 0115 925 9613 am fanylion. Mae gan y grŵp Bore Coffi 'blog' ar y we. Gwelir <http://cymrycanolbarth.blogspot.com/>

Yn ardal Bradford a Keighley mae Eileen Walker yn trefnu Clwb Clebran misol ar gyfer siaradwyr rhugl. Mae'r manylion ar safle we'r clwb, gwelir

<http://www.communicate.co.uk/brad/welshclwbclebran>

Golygydd

Nadolig, Calan

ac Amser

Ddaw i Neb Ddoe yn ôl

Daeth y Nadolig ac aeth y Nadolig eto eleni. Aeth yr amser fel y gwynt ac es i i feddwl. 21 Rhagfyr ydy dydd byrra'r (shortest) flwyddyn. Pob dydd ar ôl y Nadolig mae 4 munud yn y bore a 4 munud yn y nos yn fwy (more) o olau dydd. Erbyn dydd Calan mae awr yn fwy o olau dydd - "Awr Fawr Calan". Ond, ymheng y flwyddyn mae'r gaeaf tywyll yn mynd i ddod eto.

Mae'r cloc yn troi mewn cylch. O gwmpas ac yn ôl i'r un lle bob amser. Mae hi'n chwarter wedi saith o'r gloch heno, ond mae chwarter wedi saith o'r gloch yn mynd i ddod eto yfory ac mae chwarter wedi saith o'r gloch yn mynd i ddod eto ar nos Fercher wythnos nesaf, mis nesaf, ac, mewn blwyddyn. Mae chwarter wedi saith o'r gloch ar y dyddiad yma yn mynd i ddod eto, blwyddyn nesaf a channoedd o weithiau eto. Ond mae'r cloc yn ein twyllo (deceive) ni.

Mae hi nawr yn bum munud ar ôl i chi ddechrau darllen hwn a rydyn ni i gyd bum munud yn hŷn (older). Dydy'r amser hwn ddim yn mynd i ddod eto, byth. Dysgodd Chronos, o Groeg, i ni dydy amser ddim yn mynd o amgylch (around). Dywedodd Chronos mai llinell ydi amser. Llinell sydd yn symud ymlaen drwy'r amser.

Peth artiffisial ydy blwyddyn newydd. Dathlodd (celebrated) y Celtiaid y Flwyddyn Newydd ar ddechrau'r Gwanwyn (Mawrth 21) gyda'r 'fam-ddaeaf' (mother-earth), ac mae y flwyddyn ariannol yn dal i wneud hynny. Felly ffug (fake) ydy'r flwyddyn newydd ar Ionawr y cyntaf. Cristnogion greodd (created) y dyddiad i ddathlu y Nadolig Cristnogol.

Dy ni'n dweud yn Ionawr, "Blwyddyn Newydd Dda". Ond os ydy amser yn ein twyllo ni a'r flwyddyn newydd yn artiffisial, beth ydy'r pwynt?

Mae'r gair "da" mewn "Blwyddyn Newydd Dda" yn rhoi ansawdd (quality) yn y canol. Dydy'r flwyddyn newydd ddim yn bwysig (important), ond mae ansawdd eich amser yn bwysig. Mae amser yn brin (scarce/short) ac felly mae defnyddio (use) pob munud yn iawn yn bwysig. Os ydych chi eisiau gwneud rhywbeth (something) - mae'n rhaid ei wneud e nawr!

Huw Dylan Owen

DROS y CLAWDD COFIO

A minnau dros fy mhedwar ugain, peth reit naturiol yw edrych yn ôl a chofio; cymeriadau, digwyddiadau ac ati o'r gorffennol pell. Dywedir mai gwendid mwya'r Cymry yw edrych yn ôl, yn lle ymlaen i'r dyfodol gyda hyder.

Mae fy ngwreiddiau yn Hendygywyn ar Dâf yn Sir Gâr ac o edrych yn ôl, dw i am sôn am un cymeriad difyr yn fy rheulu, sef modryb Sophie, chwaer i mamgu Pandy, mam fy nhad. Roedd hi'n byw yng Nghwm Pandy rhyw dwy filltir neu fwy o Meidrim, drws nesa i mamgu a dadcu. Garregwen oedd enw un ty, a Garreglwyd y llall.

Menyw di briod oedd Sophie, ac i mi yn blentyn, roedd hyn yn rhywbeth od, dim plant nag oedolion yn byw gyda hi, ac felly roeddwn braidd yn ofnus yn ei chwmmi. Ond roedd ganddi gwên serchog, weithiau'n ddiereidus, a thafod siarp! Cofiaf hefyd pan oeddwn yn grwt, am Sophie, bob amser yn gwisgo ffedog, ohyd yn gwau'sanau, ac yn y ty, megin wrth law i atgyfodi'r tân. Rhyfedd fel mae pethau bach fel 'na yn gwneud argraff ar un mor ifanc..

Pan euthum yn wr ac wedi rhoi'r gorau i bethau bachgennaidd roeddwn yn hoff iawn o Auntie Sophie, a phan oeddwn adre ar leave adeg y rhyfel, rhaid oedd mynd fyny i Gwm Pandy ar y beic i weld Sophie. Hyd yn oed ganol gaeaf, dim ond i mi anfon llythyr a rhoi gwybod iddi ymlaen llaw, roedd tarten mwyar a fale i'm croesawu. Chwarae teg iddi.

Tachwedd 1944 cefais damwain difrifol pan adre o'r RAF dros y penwythnos a chwarae rygbi i Hendygywyn a'r Daf - torais asgwrn fy ngwddf pan cwmpodd y scrym.

Wedi spel mewn ysbytai yn Rhydychen, Shaftesbury a Durham, gwellaais.

Yn ystod yr haf anlynol cefais sick leave. Dyna'r adeg pan oedd Sophie yn wael iawn. Perthnasau o Meidrim oedd yn gofalu am Sophie, pob un yn ei thyrn. A minnau ar sick leave roedd gen i digon o amser i fod gyda hi.

Cofiaf am Dr Davies o Sancler yn galw heibio ac yn mynd i'r ystafell wely. Ar y mur uwch y gwely oedd sampler o waith Sophie... A B C.. nymbars..ei henw.. a dyddiad ei geni. OND.. roedd y dyddiad wedi ei guddio! Doedd neb i wybod beth oedd oedran Sophie.

A ma Dr Davies yn gofyn iddi "Beth yw eich oedran chi nawr Miss Jones"?

A Sophie yn ateb "Beth sta hwnna i neud a chi. Chi'n briod a phlant 'da chi."

Un Sul daeth fy chwaer Olwydd fyny ar ei beic o Hendygywyn, ac wedi iddi gyrraedd roedd chwant cystard ar Sophie. Rhyw awr yn gynt, roedd chwant chips arni, ond newidiodd ei meddwl.

Yn gynnar bore dydd Llun, gofynnais beth oedd hi eisiau i frecwast. Roedd chwant chips arni "I chi'n siwr bo chi ishe chips? Nes i chips ddoe a newido chi 'ch meddwl. Naf fi fi chips i chi.. Mae cystard ma hefyd. Nath Olwydd e chi ddoe."

Roedd Sophie yn gwella. "Cymera i'r ddoi." Ac felly y bu.

Ymhen rhyw awr, dyma'r postman yn galw heibio, ac yn gofyn "Shwmae Sophie y bore ma. Mae pawb yn holi am dani?"

"Iawn" atebais. "I frecwast bore ma, cas hi cystard a

chips"

Wel, nos Lun, roedd rhai yn galw heibio ar eu ffordd adre o'r Cwrdd Gweddi yng Nghapel Ffynon-bedr lle'r oedd Sophie yn aelod. Pawb yn hapus fod Sophie yn gwella ac wedi gwledda ar "cystard a chips" i frecwast. Yn amlwg fod y postman wedi pasio ymlaen y newyddion braf a ddaeth i'r fro.

Am wn i, Auntie Sophie yw'r unig un yn yr holl fyd a gafodd cystard a chips i frecwast!

GWILI LEWIS

Fel Bomio'r Louvre

Marie Smith Jones oedd y siaradwr Eyak olaf yn y byd. Mae hi wedi marw wythnos yma. Dim ond mewn breuddwydion 'roedd hi'n gallu defnyddio ei mamiaith.

Enw iawn Marie Smith Jones oedd Udach' Ku-qax'a'a'ch' sydd yn meddwl "s'wn sydd yn galw pobl o bell i ffwrdd".

Gofynnodd dyn o'r papur newydd New Yorker iddi hi sut oedd hi'n teimlo am ei iaith yn marw gyda hi. Atebodd hi, "How would you fel if your baby died? IF someone asked you, 'What was it like to see it lying in the cradle?'"

Mae America wedi chwipio (whipped) plant Eyak am siarad Eyak ac wedi gorfodi (forced) pobl i siarad Saesneg. Y polisi ffurfiol oedd "reclaiming the natives from improvident habits... ..to abandon their old customs... ..and on transforming them into ambitious and self-helpful citizens". Dywedodd swyddog Eyak America "Teaching an Indian youth in his own barbarous dialect is a positive detriment to him."

A nawr mae teledu, radio, a'r we fel "cultural nerve gas" meddai Marie Smith Jones.

Penderfynodd Marie Smith Jones i siarad Saesneg gyda'r plant achos 'roedd ofn gyda hi i'r plant gael amser caled yn yr ysgol.

Bydd tri chwarter o ieithoedd y byd wedi marw mewn 100 o flynyddoedd. Mae iaith yn cario cyfoeth meddwl y bobl. Mae colli iaith fel bomio'r Louvre.

Rhaid i ni ddweud diolch i Marie Smith Jones am gadw'r iaith. Rhaid i ni ddweud diolch, neu 'thank you', achos does neb yn gallu dweud "awa'ahdah" ragor.

Huw Dylan Owen

Cymdeithas Cymry

Nottingham

Cyfarfod Bore Coffi

Misol i Gymry Cymraeg

Am fanylion cysylltwch a

Gwynne Davies

ar

0115 925 9613



Y Cloc.

"Ifor, Wyndham", gweiddodd Martha ar ei ddau fab ifancaf, "Mae Ewythr William wedi marw, rhedwch nawr glou draw i'r pentref a nôl y cloc. Brysia nawr cyn bydd rhywun yn ei ddwyn fe!" Roedd William wastad yn dweud mai Martha oedd i gael yr hen gloc ar ôl ei ddyddiau. Brawd hynaf ei gwr, John Harris, oedd William ac yn byw ar ei ben ei hun ym Mrynfeilin, ar ôl bu farw ei wraig Mary; a doedd dim plant gyda nhw.

Cloc postmon sydd wedi tipian erbyn hyn am dros hanner cant o flynyddoedd yn araf deg ar wal y gegin, braidd yn alarus yn ôl rhai, gyda'i bendil yn cyniwair mor urddasol a dibynadwy. Anrheg briodas oedd e, a gan fod William yn löwr ar shifft gynnar y Lady Windsor 'yn bresant ddefnyddiol iawn'. Am bump o'r gloch bob bore ond dydd Sul, dyma fe'n cadw sŵn uffernol, ymlaen ac ymlaen, tan gododd rhywun y pwys oddi ar y gadwyn larwm hir iawn!

Ac yn awr dyma'r ddau fachgen bach yn tarfu arno fe, ac yn tynnu fe oddi ar ei hen oelen rwdlyd i'w gludo fe driphlith draphlith ar hyd y ffordd drol rhwng yr hen bentref Ynysybwl ar fferm fach anghysbell Llechwen ar lan yr afon Clydach.

..."Nôl mwrthwl a hoelen fawr," gorchmynnodd Martha i'r bechgyn. Mewn dim o dro dyma'r hen gloc yn tipian eto, yn ara deg, alarus, gyda'i bendil yn cyniwair yn urddasol a ddibynadwy, yn hapus iawn yn ei gartref newydd!

Sylwodd Wyndham, (fy nhad yn y pen draw ond bachgen saith oed bryd hynny cofiwch), fod drysiau gan y cloc, naill ai un ochr ar llall yr ochr arall. Braidd yn chwilfrydig oedd y bachgen bach, felly aeth e i fyny'r ysgol i agor y drysiau a gwyllo'r olwynion yn mynd rownd a rownd y tu mewn i'r cloc. Ond roedd rhai darnau o bapur yn y ffordd, ynghyd â llawer o we pry cop a digon o lwch wrth gwrs! Tynnodd fe'r cwbl mas o'r ffordd a'u taflu ar fwrdd y gegin islaw.

"Beth wyt ti'n gwneud y bachgen drwg?" meddai Martha; ac wedyn, "Wel jiw jiw! Dyma'r rheswm pam oedd William yn dweud dro ar ôl tro i mi wneud yn siŵr iawn i gael y cloc 'ma!"

...Hen bapurau pum punt gwynion oedd y darnau llychlyd sydd wedi cuddio'r olwynion hen gloc, a phum punt ar hugain oedd y cyfanswm. Swm sylweddol cofiwch! Llai na thair punt yr wythnos oedd cyflog glöwr bryd hynny!

Roedd William yn ddarbodus a'i wraig yn dynn iawn efo ei harian! Cofiaf stori am fy nhad-cu yn galw am ei frawd i fynd ar y bws i gasglu'u pensiynau Lloyd George, a dyma Mary yn rhoi ceiniog allan ei phwrs iddo fe, am ei docyn bws nôl ac ymlaen, ac wedyn pisyn arian tair ceiniog, gan ddweud mewn llais mor ymbilgar, "Peidiwch â'i newid hi William".

Doedd Martha ddim yr un fath! Gyda'i ffawd dda prynodd hi barot, gramoffon a harmoniwim i'w hunan, ac roedd digon o arian ar ôl i brynu dryll twelf bôr dwbl baril newydd sbon i'w gŵr!

John Vivian Harris

Geirfa.

Rhedwch nawr glou - *run now quickly*

Yn ara deg - *slowly*

Braidd yn alarus yn ôl rhai - *rather mournfully according to some*

Cadw sŵn uffernol - *making a hellish noise*

Yn tarfu arno fe - *disturbing it*

Driphlith draphlith - *higgledy-piggledy*

Ffordd drol - *cart track*

Naill ai un ochr ar llall yr ochr arall - *one on either side*

Llawer o we pry cop - *lots of spider's webs*

Tynnodd fe'r cwbl mas o'r ffordd - *He pulled the lot out of the way*



O Crymych Arms i Afon Derwent – Fy Nhaith Hir gyntaf

Rhan1: Crymych i Seascale

Wrth gwrs yr oeddwn wedi bod ar dripiâu Ysgol Sul Capel Bethlehem o Drefdraeth i Tenby, Porthcawl, Mwmbwls ac Aberystwyth pan yn blentyn pob blwyddyn, ac i Lundain hefyd gyda ffrind hŷn yn 1951 i Arddangosfa Prydain Fawr. Ond y tro yma yr oeddwn n'awr yn ŵr ifanc ac nid plentyn, ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf yn y coleg yn astudio Peirianeg. Rhan o ddarpariaeth y cwrs oedd treulio rhyw chwech wythnos yn ystod gwyliau'r Haf yn gweithio gyda chwmni peirianeg er mwyn profi sut oedd cymhwyso cwrs coleg gyda'r ymarferol. Roeddwn wedi ymgeisio'r profiad hyn gyda'r contractwyr enwog Taylor Woodrow, a minnau'n aros am y manylion.

Ar ddiwedd y tymor death y llythr y disgwyliwn amdano yn rhoi manylion i ble yr oeddwn i fynd i ddechrau gwaith. Yn yr amlen hefyd yr oedd tocyn tren unffordd i Seascale yn Cumbria o orsaf Crymych Arms ym mrynau Y Preselau-Sir Benfro. Pwrpas mynd yno oedd gweithio ar adeiladu'r adweithwr fasnachol gyntaf ym Mherdy Trydan Atomig newydd Calder Hall. Dyma anrhydedd i fyfyrwr ifanc! Ond pam dechrau o Crymych Arms? Pan fyddwn yn trafaeli nol a mlaen i'r coleg yn Abertawe, mynd o orsaf Abergwaun byddwn, h.y., Fishguard Harbour neu Fishguard and

Goodwick yn Wdig. Ni fyddwn wedi meddwl am Crymych Arms ar lein wledig o Aberteifi i Hen Dŷ Gwyn ar Daf gan fod ddim gwasanaeth bws o Drefdraeth. Diau fod y tocyn yn rhatach o Grymych nac o Wdig – dyma gyflwyniad i'r byd masnachol!

Felly ar brynhawn Sul heulog ym mis Gorffennaf 1954 dyma fenthyg Morris 8 wncwl Owen drws nesaf - yr ADE 746, a mynd gyda'm tad a'm mam am Grymych rhyw hanner awr i ffwrdd. Y tren – dau goets a injan stêm ar amser, cusan a shiglo llaw, ac i ffwrdd a'r tren i lawr dyffryn Taf heibio Y Glôg, ar gesail y Freni Fawr i Lanfyrnach yn y cwm, ac ymlaen i Rhyd Owen, Llanglydwen a Login, dros Penclipping Crossing, Llanfallteg ac ymuno a'r mein lein o Abergwaun a Hwlfordd i Paddington yn Cardigan Junction ac ymlaen i fae arbenig yng ngorsaf Whitland lle'r arhosai'r tren bach dros nos i ddwyn y 7.00a.m fore Llun yn ôl i Aberteifi. Ond mewn ychydig funudau y byddwn yn dal y Night Mail oedd yn mynd i Lundain. Yr oedd y tren yn brydlon ac ymlaen a ni i Gaerfyrddyn – lle rhaid oedd i'r injan fynd i ben arall y tren yw dynni'n ymhellach, ar hyd waelod dyffryn Tywi, heibio i Feryside a Kidwelly a Burry Port ac aros yn Llanelly, yna ymlaen ar y ddringfa i fyny'r bancyn hir heibio Tregwŷr gyda cyd-weithrediad yr injan banker yn hwbio yn y cefn hyd at Cockett, a'r tren yn rhydd wedyn i ruthro lawr y banc heibio gwaith dur Glandwr, draw i orsaf High Street yn Abertawe. Hon oedd yr adeg pan oedd tri gorsaf yn Abertawe! Newid injan eto cyn mynd ymlaen trwy Neath - Gastell Nedd, Port Talbot a Bridgend – Pen y Bont ar Ogwr, ac yna cyrraedd Caerdydd – Cardiff Central, lle r'oedd rhaid gadael y Night Mail i ddal tren arall am y Midlands.

Erbyn hyn yr oedd wedi tywyllu ychydig, felly cyfle i geisio cwsgr, napyn bach fan-hyn a fan-co rhwng gorsafoedd, a chyrraedd CREWE tua un y bore. Dwy awr o ysbaid cyn dal y tren nesaf, cyfle i gael paned a brechdan. Newid platform mewn gorsaf fawr a chât trwm ganol nos ddim yn bleser cofiadwy. Dal y tren i'r gogledd i gyrraedd Preston ac aros yno am ddwy awr i ddisgwyl teithwyr y bore cyn bwrw mlaen. Cyfle i gysgu ychydig eto yna cyrraedd Carnforth a newid tren i ddal y tren am cludau i Seascale ar hyd arfordir Cumbria. Arosai ymhob gorsaf ar y ffordd, ond yn cyrraedd Seascale ar amser, a fen Taylor Woodrow yn fy nisgwyl, i'm cludo i swyddfa'r contractwyr yn Calder Hall.

Taith dros rhyw ugain awr, a minnau wedi hen flino. Pobl yn garedig a'm dwyn i'm gwesty.

Hanes fy symudiad i'r Derwent yn y Rhifyn nesaf.

Gwynne Davies

Daeth rhai o'r atgofion hyn imi wrth edrych ar hen lun o orsaf Crymych Arms (o gasgliad o luniau gan Hywel Davies sydd i'w gweld yn Amgueddfa Sirol Penfro ym Maenordy Scolton) wrth ddarllen llyfr newydd Richard Parker, – The Railways of Pembrokeshire (Noodle Books 2008)



Cymru ar y We

Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Drych Digidol: www.llgc.org.uk

Canolfan Y Celfyddydau Aberystwyth

www.aber.ac.uk/artscentre

Golwg: clychgrawn wythnosol

www.golwg.com

Prifysgol Cymru Coleg Bangor

<http://www.bangor.ac.uk>

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

www.eisteddfod.org.uk

S4C Language Centre

<http://www.learnonS4.co.uk/home.php>

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Clwb Malu Cachu

<http://www.clwbmalucachu.co.uk/index.htm>

Canolfan Cymry Llundain

<http://www.londonwelsh.org>

Cymdeithas Cymreig Birmingham

<http://www.birminghamwelsh.org.uk/>

Cymrodorion Maesbedr

<http://www.users.global.net.co.uk/~scrol/pws/mapysafle.html>

Northwich Welsh Society

<http://freespace.virgin.net/usedto.be/index.html>

Clwb Clebran Bradford

<http://www.communicate.co.uk/brad/welshclwbclebran/>

Nant Gwrtheyrn Language Centre

<http://nantgwrtheyrn.org/DesktopDefault.aspx>

Cymru ar y ffôn

Popeth Cymraeg, Denbigh, North Wales

For free Welsh Language Courses 01745 812287

Sheffield & District Cambrian Society

Hon Sec. Dr G Daniels 0114 236 6301

Cymdeithas Cymry Nottingham

Gwynne Davies 0115 925 9613

Northwich Welsh Society

Gwili Lewis 01606 784438

Bradford and District St.David's Society

Secretary Mrs E Walker 01535 665829

Cymdeithas Gymreig Huddersfield

Sec Mrs Barbara Watkins 01706 817786

Cysylltu a'r Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby

Trwy ffônio 07709 238680 neu gysylltu ar lein ar <http://derbywelshlearnerscircle.blogspot.com>. Mi fydd 'na groeso cynnes i bawb!

Cysylltu a Llais Y Derwent trwy ffonio 07709 238680 neu anfon ebost i dysgwyr5@aol.com